Mewn Partneriaeth

Newydd

Byddwch yn rhan o'r Bartneriaeth

Am y pedair blynedd ddiwethaf, bu gan Cymdeithas Tai Newydd ffocws ar sicrhau gwelliant sylweddol yn y ffyrdd y gall tenantiaid gymryd rhan yng ngwaith y Gymdeithas. Mae hyn wedi sicrhau y caiff y newidiadau y mae tenantiaid eu hargymell eu rhoi ar waith, ac arweiniodd hynny at wella gwasanaethau.

Ers 2006 bu newidiadau sylweddol i'r ffyrdd y gall tenantiaid gymryd rhan. Medrwch ymuno â chyfarfodydd tenantiaid gyda'r Panel Cymunedol neu ymuno â grŵp ar gyfer un neu ddau gyfarfod ar bwnc penodol, er enghraifft gyda Grwpiau Gorchwyl a Gorffen. Os nad ydych yn hoffi cyfarfodydd, medrwch gymryd rhan mewn arolygon neu ymuno â'r Panel Darllen i wirio pa mor ddealladwy yw cyhoeddiadau Newydd. Medrech hefyd gwrdd â staff mewn sioe deithiol neu gael eich ethol i'r Bwrdd.

Mae cynifer o ffyrdd i gymryd rhan wrth wella gwasanaethau Newydd. Mae tenantiaid yn cael cymaint o effaith ar y ffordd y darparwn wasanaethau fel ein bod wedi symud ymlaen o ddim ond 'cynnwys" tenantiaid. Mae cynnwys tenantiaid wedi arwain at bartneriaeth ac mae Cymdeithas Tai Newydd yn wirioneddol gredu y caiff ei holl weithrediadau bellach eu rhedeg **MEWN PARTNERIAETH** gyda'i thenantiaid.

Bu gennym "Strategaeth Cynnwys Tenantiaid" i'n cael lle'r ydym yn awr. Ar gyfer y dyfodol, byddwn yn datblygu "Strategaeth Partneriaeth Tenantiaid" i sicrhau fod eich barn a'ch syniadau'n parhau i hybu gwelliannau i'r gwasanaethau y mae Cymdeithas Tai Newydd yn eu darparu.

Mae'r cylchlythyr yma'n dathlu'r bartneriaeth honno a hefyd yn rhoi peth syniad o'r ffyrdd y medrwch chithau hefyd weithio mewn partneriaeth gyda Newydd i gael y gwasanaethau rydych eu heisiau a'r gwerth gorau am arian am eich rhent.

Gobeithiaf y byddwch yn neilltuo amser i ddarllen y cylchlythyr yma. Mae croeso mawr i chi gysylltu â'n Tîm Cynnwys y Gymuned (manylion tu mewn) os hoffech fwy o wybodaeth, neu os hoffech ymuno â'r bartneriaeth.

Paul Roberts
Prif Weithredydd
Gorffennaf 2010

Cynnwys

Sut mae cynnwys tenantiaid wedi newid?	03
Pam cymryd rhan yn Newydd?	04
Craffu Tenantiaid yn cychwyn!	05
Pa opsiynau sydd gen i os hoffwn gymryd rhan?	06-11
Stad Glyntaf yn dathlu 30 mlynedd	12
Cronfa Gymunedol Newydd 2010	13
Arwyr Tai	14
Newidiadau i etholiadau tenantiaid a chyfranddaliadau Newydd	15
Cymryd gofal o fusnes	16
Angen Siopwyr Dirgel!	17
Pwy sy'n cymryd rhan yn y Bartneriaeth?	18
Beth sydd ar y gweill? a manylion cyswllt	19

Sut mae cynnwys tenantiaid wedi newid y ffordd yr ydym yn rhedeg Newydd

Neges gan Hyrwyddwr Cynnwys Tenantiaid Bwrdd Newydd

Mae'n anodd credu ein bod ychydig flynyddoedd yn ôl yn ei chael yn anodd canfod ffyrdd i gynnwys tenantiaid yng ngwaith y Gymdeithas. Fel canlyniad, i Newydd roedd cynnwys tenantiaid yn ymwneud yn bennaf â threfnu digwyddiadau mewn cynlluniau neu stadau a phenderfynu sut i ddosbarthu arian i gymdeithasau tenantiaid.

Newidiodd pethau yn sylweddol mewn cyfnod byr. Roedd aelodau Grŵp Craffu Tenantiaid yn bresennol yng nghyfarfod diwethaf ein Bwrdd, ac roedd yn cynnwys ein hadroddiad 6 misol ar ein strategaeth. Ym mhob rhan o'r Gymdeithas mae tenantiaid yn gweithio gyda staff ac aelodau Bwrdd mewn ystod gyfan o feysydd sy'n greiddiol i'n gwaith.

Mae fy rôl i fel Hyrwyddwr Cynnwys Tenantiaid ar y Bwrdd yn un o blith y llawer o ffyrdd y mae tenantiaid yn awr yn dylanwadu ac yn helpu i wneud penderfyniadau. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am yr hyn a wnaiff Newydd ac mae ganddo gyfle i:

- dderbyn gwybodaeth o ansawdd gwell ar yr hyn sy'n bwysig i ni ei wella, er enghraifft ymddygiad gwrthgymdeithasol
- gwrando ar gyd aelodau Bwrdd sydd hefyd yn denantiaid, er mwyn deall yn well beth yw effaith rhai o benderfyniadau Newydd
- clywed sut ydym yn perfformio mewn meysydd megis gofal cwsmeriaid, ôl-ddyledion rhent ac ati

Ni fyddai dim o hyn yn bosibl heb dri pheth:

1. Parodrwydd tenantiaid i roi eu hamser a chymaint o ymdrech i holl feysydd gwaith Newydd
2. Y staff sydd wedi gweithio'n wirioneddol galed i helpu gwneud i hyn ddigwydd
3. Y Bwrdd sydd wedi croesawu'r newidiadau hyn

Rydym i gyd yn awr yn gweithio mewn partneriaeth ac mae safon ein penderfyniadau a sut y rhedwn y Gymdeithas yn cael budd mawr o hynny.

Amanda Protheroe
Aelod Bwrdd a Hyrwyddwr Cynnwys Tenantiaid
Bwrdd Newydd

Pam cymryd rhan yn Newydd?

Mewn blynyddol blaenorol efallai y gofynnwyd i chi am eich barn ar sut y dylai Newydd ddarparu ei gwasanaethau. Efallai i chi gael eich holi ar gyfer yr arolwg tenantiaid, holiadur Newydd 90 neu holiaduron ar dâl gwasanaeth. Efallai i chi fod ar y Panel Darllen, yn aelod o grŵp tenantiaid a phreswylwyr, yn Denant Siopwr Dirgel neu yr ymgynghorwyd â chi mewn un arall o amrywiaeth eang o ffyrdd y mae'r Gymdeithas yn cynnwys ei thenantiaid.

Mae'r adborth a gawn gan denantiaid yn arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd mae Newydd yn cyflenwi gwasanaethau. Byddai'n cymryd nifer o dudalennau i restru popeth a newidiodd oherwydd gweithio mewn partneriaeth gyda thenantiaid. Islaw mae rhestr o ychydig o'r ffyrdd y mae cyflenwi gwasanaeth yn Newydd wedi gwella drwy weithio mewn partneriaeth gyda thenantiaid.

Beth gafodd ei ddatblygu?	Sut y cafodd tenantiaid eu cynnwys?
Fersiwn DVD o'r Llawlyfr Tenantiaid	Cafodd y prosiect ei ddatblygu a'i arwain gan Is-grŵp Cydraddoldeb ac Anabledd Newydd
Gwefan newydd Newydd	Y Panel Cymunedol ddewisodd y dyluniad a chymeradwyo'r fersiwn terfynol
Staff allan yn amlach ar stadau	Arolwg Tenantiaid 2008 a ofynnodd am y newid, ac mae'r Panel Cymunedol a thenantiaid ar y Bwrdd wedi cymryd rhan yn y prosiect
Newid y system ffôn	Canfu Tenantiaid fu'n Siopwyr Dirgel nad oedd staff bob amser yn ymateb i negeseuon a adawyd ar ffonau ateb
Datblygu Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid	Datblygodd y Panel Cymunedol y Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid i staff eu dilyn
Llawlyfr Tenantiaid a Llawlyfr Atgyweiriadau newydd	Cawsant eu datblygu gan y Panel Darllen a'r Panel Cymunedol
Dangosyddion perfformiad cyfeillgar i denantiaid	Mae'r grŵp Penderfyniad Grym Tenantiaid wedi datblygu "dangosyddion cyfeillgar i denantiaid" ar gynnal a chadw, ymddygiad gwrthgymdeithasol a thaliadau gwasanaeth a gyhoeddir yn yr Adolygiad Blynyddol nesaf i denantiaid
Dyfodol ardaloedd chwarae ar stadau	Sefydlodd y Panel Cymunedol Grŵp Gorchwyl a Gorffen i benderfynu beth i'w wneud gyda'r ardaloedd chwarae y mae Newydd yn berchen arnynt
Polisïau Rheoli Stad	Mae'r Is-grŵp Adolygu Polisi wedi adolygu'r holl bolisïau rheoli stad ac wedi creu polisi newydd a gwell
Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy	Datblygwyd y Strategaeth Cynhesrwydd Fforddiadwy oherwydd y materion y gwnaethoch eu codi yn yr Arolwg Tenantiaid

Craffu Tenantiaid yn cychwyn!

Yn dilyn penodi'r Grŵp Craffu Tenantiaid yn gynharach eleni, fe wnaethom ofyn i'r grŵp sut y teimlent fod yr holl broses yn mynd rhagddi hyd yma a chanfod sut beth yw bod yn aelod o'r Grŵp.

C Felly ydych chi wedi penderfynu pa bwnc fydd y cyntaf y byddwch yn craffu arno?

Heather: Fe wnaethom benderfynu ymgynefino â'r gwaith yn raddol a chanolbwyntio i ddechrau ar Wasanaethau Cwsmeriaid oherwydd ein bod ni, fel tenantiaid, yn credu ei fod yn lle da i gychwyn drwy edrych ar wyneb Newydd a'r gwasanaethau rheng-flaen y mae'n eu darparu i'w gwsmeriaid.

C Beth mae camau cyntaf eich craffu wedi'i gynnwys?

Brian: Fe wnaethom fynychu cyfarfod o Fwrdd Newydd i ganfod sut y gwneir yr argymhellion a sut maent yn dod i wneud penderfyniadau am y materion a godwyd.

Alyson: Byddwn yn cymharu arferion gyda chymdeithasau tai eraill fel y medrwn helpu i sicrhau bod tenantiaid Newydd yn derbyn y gwasanaeth gorau posibl.

Joan: Fe wnaethom ymweld â phob swyddfa ardal a mynd o amgylch stadau fel y medrai pob aelod o'r grŵp gael dealltwriaeth well o faterion lleol.

C Pa hyfforddiant ydych chi wedi'i wneud?

Jacky: Fe wnaethom i gyd dderbyn hyfforddiant trylwyr i ddechrau i wneud yn sicr y medrem i gyd wneud y broses

graffu yn llwyddiannus. Mae hyfforddiant yn parhau a byddwn yn dysgu wrth i ni fynd ymlaen. Rydym hefyd yn mynychu diwrnod wedi'i drefnu gan TPAS (Gwasanaeth Ymgynghori Cyfranogiad Tenantiaid) i rannu'r profiadau a gawsom hyd yma.

Steve: Mae'n rhaid i'r broses hyfforddiant fod yn hyblyg gan fod llawer i'w ddysgu a'i ystyried. Rwy'n credu mai'r allwedd i lwyddant yw cymryd camau bach i gael yr wybodaeth fwyaf.

C Beth nesaf i'r grŵp?

Jacky: Byddwn yn awr yn adolygu'r holl wybodaeth a gawsom e.e. canlyniadau siopa dirgel, arolygon tenantiaid, adroddiadau archwiliad. Byddwn yn cyfweld â staff, yn dod i gasgliadau o'n canfyddiadau ac yna'n drafftio adroddiad fydd yn mynd i Fwrdd Newydd ynghyd ag argymhellion.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y gwasanaeth cwsmeriaid a dderbyniwch gan Newydd ac yr hoffech basio eich sylwadau i'r Grŵp Craffu eu hystyried, cysylltwch â Jackie Holly ar 01443 408080 os gwelwch yn dda.

Pa opsiynau sydd gen i os hoffwn



gymryd rhan yn Newydd



Gwahanol gyfleoedd cymryd rhan	Am beth y mae?
Panel Cymunedol	Goruchwylio pob gweithgaredd ymgyfraniad i godi materion a phryderon newydd. Penderfynu p'un ai i sefydlu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen neu is-grwpiau i drafod materion. Adrodd yn ôl i Fwrdd Newydd ar ôl pob cyfarfod.
Grwpiau Gorchwyl a Gorffen	Sefydlwyd gan y Panel Cymunedol i fynd i'r afael a gwella mater penodol. Er enghraifft, sefydlwyd grŵp GaG i drafod dyfodol ardaloedd chwarae a phenderfynu sut i fuddsoddi ynddynt. Mae Grwpiau GaG ar Daliadau Gwasanaeth, Cynnwys Tenantiaid ac Ardaloedd Chwarae. Mae grwpiau'n adrodd yn ôl i'r Panel Cymunedol.
Perfformiad Grym Tenantiaid	Grŵp o denantiaid sy'n datblygu mesurau perfformiad ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan Newydd. Mae hyn yn galluogi tenantiaid i asesu pa mor dda y caiff gwasanaeth ei ddarparu. Datblygwyd mesurau perfformiad ar gyfer y gwasanaethau cynnal a chadw ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac maent yn edrych ar hyn o bryd ar daliadau gwasanaeth. Mae'r grŵp yn bwriadu edrych ar wasanaethau stad yn nesaf. Cyhoeddir yr holl fesurau perfformiad.
SASH - Tai Gwarchod	Grŵp sy'n cwrdd yn rheolaidd i drafod materion mewn tai gwarchod. Caiff crynodebau o drafodaethau a materion eu bwydo'n ôl i'r Panel Cymunedol.
NEADS - Is-grŵp Cydraddoldeb ac Anabledd	Grŵp sy'n cwrdd i drafod cydraddoldeb sy'n cyfarfod yn rheolaidd â grŵp cydraddoldeb staff Newydd i sicrhau fod pob grŵp lleiafrifol yn derbyn gwasanaeth nad yw'n gwahaniaethu. Mae'n adrodd yn ôl i'r Panel Cymunedol.
Cynadleddau Tenantiaid/ Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol/ Cyfranddaliadau	Mae Newydd yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (CCB) o gyfranddalwyr. Mae gan bob tenant hawl i brynu cyfranddaliad drwy ddim ond llenwi ffurflen a thalu £1. Mae bod yn gyfranddaliwr yn eich galluogi i bleidleisio yn y CCB ar faterion pwysig sy'n effeithio ar Newydd. Fel arfer caiff y CCB ei gyfuno gyda Chynhadledd Tenantiaid lle mae'r Panel Cymunedol yn rhoi adroddiad ar gynnydd pob grŵp yn gwella gwasanaethau.
Is-grwpiau	Os yw gwasanaeth angen ei fonitro'n rheolaidd neu â materion na fedrai Grŵp Gorchwyl a Gorffen eu trin, gall y Panel Cymunedol sefydlu is-grŵp parhaol. Mae is-grŵp ar hyn o bryd ar gyfer cynnal a chadw ac un ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r Panel hefyd wedi sefydlu is-grŵp i adolygu holl bolisïau Newydd i sicrhau fod mewnbwn tenantiaid ar gyfer pob gwasanaeth a gyflwynir. Mae'r is-grwpiau yn adrodd yn ôl i'r Panel Cymunedol.

Pa fath o berson fyddai â diddordeb?	Pa mor aml fyddwn i'n cymryd rhan?
Brwdfrydig am gynnwys tenantiaid a diddordeb mewn canfod sut mae tenantiaid yn gweithio gyda Newydd.Yn seiliedig ar ffurf cyfarfod ffurfiol ac nid ar gyfer materion unigol. Mae tua 30-40 o bobl yn bresennol fel arfer. Medrwch e-bostio neu bostio sylwadau os oes angen.	Mae'r Panel yn cwrdd yn chwarterol ac yn ceisio ymweld â'r rhan fwyaf o ranbarthau yn ystod y flwyddyn.
Byddai angen i chi fod â diddordeb mewn mater penodol. Mae'r grwpiau yn cael cyfarfodydd anffurfiol ac yn aml yn ymweld â stadau Newydd. Mae rhwng 5-10 o bobl yn bresennol fel arfer. Medrwch e-bostio neu bostio sylwadau os oes angen. Nid yw'n cwrdd wedyn ar ôl adrodd yn ôl i'r Panel Cymunedol.	Fel arfer nid yw Grwpiau Gorchwyl a Gorffen yn parhau am fwy na 2 fis, er bod hynny'n dibynnu ar y pwnc.
Diddordeb mewn helpu tenantiaid eraill i ddeall sut y caiff perfformiad Newydd ei fonitro. Nid yw'r grŵp yn monitro a rhoi sylwadau ar y gwasanaethau. Mae'r cyfarfodydd yn weddol ffurfiol gan y cânt eu hwyluso gan ymgynghorydd ond mae'n helpu i benderfynu sut olwg fyddai ar wasanaeth ardderchog.	Mae'r grŵp yn rhoi sylw i ddau neu dri gwasanaeth bob blwyddyn ac yn cwrdd tua 4 gwaith ar gyfer pob gwasanaeth.
Tenantiaid tai gwarchod. Mae cyfarfodydd yn tueddu i fod yn anffurfiol er y medrwch e-bostio neu bostio sylwadau.	Mae'r grŵp yn cwrdd 4 gwaith y flwyddyn, fel arfer yn un o gynlluniau gwarchod Newydd.
Diddordeb mewn trafod unrhyw fath o wahaniaethu ac yn ymroddedig i sicrhau mynediad teg i bob tenant. Mae cyfarfodydd yn tueddu i fod yn anffurfiol, er y medrwch e-bostio neu bostio sylwadau.	Mae'r grŵp yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn.
Diddordeb yn null llywodraethu a rhedeg Newydd. Mae'r CCB yn delio gydag aelodaeth Bwrdd, cyfrifon archwiliedig a phenodi archwilwyr, yn ogystal â phenderfyniadau sylweddol, megis newid rheolau.	Cynhelir y CCB unwaith y flwyddyn, fel arfer ym mis Medi.
Byddai angen i chi fod â diddordeb mewn gwasanaeth penodol (ar hyn o bryd un ai gynnal a chadw neu ymddygiad gwrthgymdeithasol), neu mewn trafod polisïau Newydd gyda staff a thenantiaid eraill. Yn tueddu i fod yn gyfarfodydd anffurfiol, er y medrwch e-bostio neu bostio sylwadau.	Mae'r cyfarfodydd yn digwydd yn ôl yr angen, ond fel arfer tua 4 gwaith y flwyddyn.

Gwahanol gyfleoedd cymryd rhan	Am beth y mae?
Newydd 90	Mae Newydd 90 yn arolwg ar bapur neu ar y rhyngrwyd a anfonir at denantiaid sydd wedi cofrestru diddordeb mewn cymryd rhan yn y dull yma. Mae'r arolygon fel arfer am wasanaeth neu fater penodol ac yn gymharol fyr. Caiff y canlyniadau eu bwydo'n ôl i'r grŵp a ofynnodd amdanynt, yn ogystal â'r Panel Cymunedol.
Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr	Mae llawer o denantiaid wedi sefydlu eu Grŵp Tenantiaid a Phreswylwyr eu hunain. Gall unrhyw breswylydd sefydlu grŵp a chyhyd ag y caiff rhai meini prawf eu cyflawni, gall y grŵp wneud cynnig am gyllid gan newydd i gynorthwyo ei nodau. Adroddant yn uniongyrchol i'r Panel Cymunedol.
Aelodaeth o'r Bwrdd Tenantiaid	Cynhelir etholiadau yn rheolaidd ar gyfer pobl sy'n dymuno dod yn aelodau o Fwrdd Newydd. Mae gan bob tenant hawl i bleidleisio.
Sioeau Teithio Stad	Yn ystod y gwanwyn a'r haf bob blwyddyn mae aelodau o'r staff tai a chynnal a chadw yn teithio o amgylch y stadau mwy. Byddant yn gofyn i chi lenwi'r Arolwg Tenantiaid blynyddol ond hefyd yn trafod unrhyw faterion a all fod gennych.
Adolygiadau Gwella	Bob tro mae Newydd yn adolygu gwasanaeth yn llawn, gofynnwn i denantiaid sydd â diddordeb yn y gwasanaeth hwnnw i ymuno â'r grŵp adolygu.
Siopa Dirgel	Mae tenantiaid yn profi'r gwasanaethau i weld os ydynt yn cyrraedd y safonau gwasanaeth a ddatblygwyd gan y Panel Cymunedol. Mae siopwyr dirgel yn ffonio staff Newydd a phrofi sefyllfaoedd. Caiff y canlyniadau wedyn eu rhoi i ymgynghorydd sy'n dadansoddi'r canlyniadau ac yn paratoi adroddiad. Yn yr ychydig fisoedd nesaf byddwn yn datblygu arolygiadau staff lle eir â thenantiaid i stad i asesu'r gwasanaethau a roddir yno.
Arolwg Tenantiaid	Mae Newydd yn cynnal Arolwg Tenantiaid blynyddol i brofi ansawdd gwasanaethau. Caiff rhai arolygon eu cwblhau wyneb-i-wyneb yn ystod y sioeau teithio stad, a chaiff y gweddill eu postio.
Grŵp Craffu Tenantiaid	Yn 2009, sefydlodd a recriwtiodd y Panel Cymunedol chwe thenant i graffu ar y gwasanaethau y mae newydd yn eu darparu. Adroddant yn uniongyrchol i'r Bwrdd.

Pa fath o berson fyddai â diddordeb?	Pa mor aml fyddwn i'n cymryd rhan?
Pobl nad ydynt eisiau mynd i gyfarfodydd, ond a hoffai roi eu barn ar wasanaethau.	Anfonir arolygon pan fo angen, ond anaml y mae'n fwy na dwywaith y flwyddyn.
Pobl sy'n bryderus am faterion yn eu hardal eu hunain ac eisiau cwrdd gyda phobl leol eraill a all fod â'r un pryderon.	Gall pob grŵp benderfynu pa mor aml y dymunant gyfarfod.
Pobl sydd eisiau cymryd rhan yn uniongyrchol yn llywodraethu Newydd mewn gosodiad ffurfiol.	Cynhelir etholiadau yn flynyddol (os oes lleoedd gwag) a chynhelir cyfarfodydd bob tua deufis.
Unrhyw un nad ydynt eisiau trafod materion mewn cyfarfodydd, ond sydd eisiau siarad wyneb-yn-wyneb gyda staff.	Blynyddol
Byddai angen i chi fod â diddordeb mewn gwasanaeth penodol a rhannu eich barn.	Fel a phryd y caiff gwasanaethau eu hadolygu.
Tenantiaid sydd eisiau treialu'r gwasanaethau drwy ffonio neu farn ansawdd stadau Newydd. Nid oes cyfarfodydd ffurfiol a medrwch ddewis cymryd rhan ai peidio bob tro.	Bob tri mis.
Pobl nad ydynt eisiau mynd i gyfarfodydd ffurfiol na chwrdd gyda staff, ond eisiau rhoi eu barn.	Unwaith y flwyddyn, yn yr haf fel arfer.
Tenantiaid sydd â diddordeb mewn craffu ar wasanaethau Newydd ac yn medru edrych ar welliannau ar gyfer budd pob tenant.	Mae'r Grŵp Craffu Tenantiaid yn gosod ei amserlen ei hun ar gyfer cyfarfodydd.

Stad Glyntaf yn dathlu 30 mlynedd o weithredu cymunedol

Cynhaliodd Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Glyntaf (GTRA), Cymdeithas Tai Newydd a phartneriaid ddigwyddiad dathlu deuddydd ar 14 a 15 Mai 2010. Roedd y digwyddiad i goffau 30 mlynedd o weithredu cymunedol ar y stad, 21 mlynedd o Undeb Credyd Glantaf (rhan o Dragon Savers) a hefyd 10 mlynedd o GTFM, yr orsaf radio leol.

Dechreuodd y digwyddiad gyda chynhadledd gymunedol yng Nghlwb Llafur Rhydyfelin gyda dros 200 o denantiaid a gwesteion yn bresennol. Siaradodd nifer o siaradwyr gwadd am hanes y stad yn cynnwys Keith Edwards (CIH Cymru), Ashley Williams (tenant a chyn aelod o staff TPAS), Jackie Yeo (Cadeirydd GTRA), Paul Roberts (Prif Weithredydd Newydd), Nicola Gale (cyn aelod o staff Newydd), y Cynghorydd Maureen Webber, y Cynghorydd Russell Roberts, Jane Davidson AC ac Owen Smith AS.

Cafwyd perfformiad theatr gan blant o Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen a edrychodd ar y problemau a wynebai pobl ifanc yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Plannodd Jane Davidson ddwy goeden goffa gydag aelodau o GTRA Ifanc. Mae hyn yn rhan o brosiect mwy lle caiff 500 o goed eu plannu yn y flwyddyn yn ymyl Canolfan Ilan.

Helpodd Lauren Lewis (Cydlynydd Prosiect Newydd), Lyn Bond (Cadeirydd y Prosiect) ac Ashley Williams (Cynghorydd y Prosiect) i gydlynu cynhyrchu llyfryn yn dathlu hanes

y stad. Buont hefyd yn gweithio gyda phlant lleol i gynllunio celfwaith yn dangos eu gweledigaeth o'r stad yn 30 mlynedd. Caiff hyn ei ddangos yn barhaol yn foyer Canolfan Ilan.

Dychwelodd Iris Williams OBE i gynnig cefnogaeth barhaus i'r stad drwy gynnal cyngerdd yng Nghanolfan Hamdden y Ddraenen Wen. Roedd y neuadd yn llawn i'r ymylon gyda chorau lleol a pherfformwyr lleol hefyd yn arddangos eu talent.

Daeth y digwyddiad i ben ar y dydd Sadwrn gyda Diwrnod Hwyl yng Nghanolfan Ilan oedd yn cynnwys sioe dalent, gyda phlant lleol yn canu a dawnsio i diddanu.

Bu'r digwyddiad yn un llwyddiannus tu hwnt gyda dros 1,000 o bobl yn bresennol dros y deuddydd. Diolch i bawb a gymerodd ran a dymuniadau gorau ar gyfer partneriaeth lwyddiannus barhaus dros y 30 mlynedd nesaf.

Cronfa Gymunedol Newydd 2010

Bob blwyddyn gwahoddir ein cymdeithasau tenantiaid a phreswylwyr i wneud cais am gyllid o Gronfa Gymunedol Newydd i wneud prosiectau neu gynnal digwyddiadau ar gyfer eu cymunedau.

Cafodd y meini prawf eleni eu hymestyn i alluogi grwpiau anffurfiol hefyd i wneud cais er mwyn gwneud prosiectau er budd cymuned Newydd. Dengys y tabl islaw i bwy y dyfarnwyd arian.

Cynllun/Prosiect	Swm a ddyfarnwyd (£)
Cwrt Philippa Freeth	1750
Alltwen	2500
Cwrt Arthur Davis	1500
Cwrt Elis Fisher	825
Grŵp Tenantiaid Gofal Cymru Newydd	3000
Stryd Thompson	1830
ANTRA	3246
GTRA	11603.75
MYERA	2850
Cyfanswm	29104.75

Mae cyllid ar ôl i'w ddyrannu. Os oes gennych brosiect yr hoffech ei wneud eleni, cysylltwch â'r Tîm Cyswllt Cymunedol ar 01443 408080/01446 701501 i gael gwybodaeth bellach ar sut i wneud cais.

Arwyr Tai

Ddydd Gwener 14 Mai 2014, aeth grŵp ohonom i Lundain ar gyfer Seremoni Wobrwyo Arwyr Tai. Gwnaethom adael swyddfa Coryton am 8am a chael taith dawel nes i ni gyrraedd cyrion Llundain, ac yna ymlusgo am weddill y daith nes cyrraedd y gwesty.

Gyda channoedd o bobl eraill, aethom i ystafell ddawns fechan am dderbyniad diodydd ac oddi yno i'r brif ystafell ddawns ar gyfer cinio cyn y gwobrau. Roedd y bwyd yn wych ac yna cyflwynwyd y gwobrau gan y seren deledu Ben Fogle.

Enillodd Tîm Technoleg Gwybodaeth Cadarn y wobr am Dîm TG y Flwyddyn, a roeddem i gyd yn hynod falch. Roedd y tîm Perfformiad Grym Tenantiaid ar y rhestr fer ond ni chawsant wobr. Er ein bod yn siomedig, medrwn bob amser roi cynnig arall y flwyddyn nesaf!

Mae holl aelodau'r Tîm Grym Tenantiaid yn haeddu llawer o ganmoliaeth am eu gwaith caled ers i ni ffurfio'r grŵp ac fel y dywedodd pawb yn y seremoni yn Llundain, mae cyrraedd y chwech olaf yn gryn gamp ynddi'i hun! Felly i holl aelodau'r Tîm Grym Tenantiaid na aeth i'r Seremoni Wobrwyo, roeddem i gyd yn meddwl amdanoch a gobeithio y medrwch fod yn bresennol y tro nesaf.

Ysgrifennwyd gan Linda Chamberlain, aelod o grŵp Perfformiad Grym Tenantiaid.

Tîm Perfformiad Grym Tenantiaid

Newidiadau i etholiadau tenantiaid

Ddwy flynedd yn ôl cynhaliwyd ein hetholiadau tenantiaid cyntaf am leoedd ar Fwrdd Newydd. Mae bellach bedwar tenant wedi eu hethol yn aelodau'r Bwrdd.

Bwriadwn gynnal etholiadau bob blwyddyn gyda dau o'r tenantiaid etholedig yn gorfod sefyll i lawr (medrant sefyll ar gyfer ail-etholiad os dymunant). Mae'r Bwrdd wedi adolygu'r polisi ac wedi penderfynu y byddai tymor tair blynedd yn fwy addas.

Mae'r newid hwn yn golygu y gall tenantiaid wneud cyfraniad mwy ystyrlon a gwneud gwell defnydd o'r hyfforddiant a roddwn i'w cefnogi yn eu rôl.

Fel canlyniad, ni fydd etholiadau tenantiaid yn 2010 a bydd y tenantiaid presennol a etholwyd ar y Bwrdd yn parhau yn eu swydd.

Fodd bynnag, rydym yn bwriadu cynnal digwyddiadau hyfforddiant ar gyfer pobl a fedrai fod â diddordeb mewn sefyll etholiad yn y dyfodol. Os oes digon o ddiddordeb, cynhelir hyfforddiant yn rhad ac am ddim yn yr hydref.

Os hoffech fynychu'r hyfforddiant hwn, cysylltwch â Michelle Salter ar 02920 629364 neu michelle.salter@newydd.co.uk a gadael eich enw a manylion cyswllt.

Cyfranddaliadau Newydd – cadw eu gwerth

Mae Newydd yn sefydliad di-elw ond mae ganddo gyfranddaliadau. Efallai bod hyn yn swnio ychydig yn od ond mae cyfranddaliadau Newydd yn costio £1 ac nid ydynt yn cynyddu na gostwng mewn gwerth. Nid yw cyfranddalwyr yn derbyn unrhyw enilliad ariannol megis difidend neu fonws. Ni fedrir gwerthu cyfranddaliadau a dim ond un gyfranddaliad a ganiateir i bob person.

Mae bod â chyfranddaliad yn Newydd yn golygu y medrwch fod â rhan mewn penderfyniadau pwysig sy'n effeithio ar y ffordd y caiff y sefydliad ei redeg. Gwahoddir cyfranddalwyr i gymryd rhan yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gelwir cyfarfodydd eraill o bryd i'w gilydd i wneud penderfyniadau pwysig. Mae'r penderfyniadau hyn yn cynnwys penodi a symud aelodau Bwrdd a newidiadau i'r rheolau. Os ydych yn bryderus am ddyfodol Newydd, yna gall dod yn gyfranddaliwr roi cyfle i chi helpu i benderfynu ei dyfodol.

Os dymunwch wneud cais am gyfranddaliad yn Newydd, cysylltwch ag unrhyw un o swyddfeydd Newydd neu e-bostio enquiries@newydd.co.uk.

Cymryd gofal o fusnes

gan John Phillips, Cadeirydd y Panel Cymunedol

Ers gweithredu'r cyd-banel cymunedol, mae llwyddiant y grŵp wedi rhagori ar bob disgwyl. Mae'r niferoedd sy'n mynychu'r cyfarfodydd wedi parhau i gynyddu, yn gymaint felly fel y bu'n rhaid chwilio am leoedd mwy i gynnal cyfarfodydd. Cafodd tenantiaid eu hannog gan y ffaith y caiff eu sylwadau eu clywed. Maent yn cael effaith uniongyrchol ar y ffordd mae Newydd yn darparu ei wasanaethau i chi!

I fod yn sylfaen i'r gwaith a wneir a sicrhau y cawn ein llywio yn y cyfeiriad cywir, gall y panel ofyn am grwpiau gorchwyl a gorffen ar unrhyw faes o gonsyrn. Maent yn derbyn adborth yn rheolaidd o'r grwpiau ymgynghorol, NEADS (Cydraddoldeb ac Anabledd) a SASH (Tai Gwarchod) a hefyd gan y grŵp Perfformiad Grym Tenantiaid sydd hyd yma wedi adolygu polisïau ar ymddygiad gwrthgymdeithasol ac atgyweiriadau a fydd cyn hir yn edrych

ar daliadau gwasanaeth. Maent hefyd yn derbyn adborth gan is-grwpiau eraill (polisi, meysydd chwarae ac unedau gwag a gosodiadau). Bydd gan y Pwyllgor Craffu Tenantiaid newydd rôl bwysig wrth roi sylw i unrhyw feysydd gwan sydd angen eu trafod.

Gan y cynrychiolir tenantiaid o bob ardal, cynhelir cyfarfodydd yn chwarterol mewn cylch rhwng y Fro, y Cymoedd a'r Drenewydd, Mae cynrychiolaeth o wahanol ranbarthau yn sicrhau y gall ystod amrywiol o bobl fynychu ac yr ystyrir amrywiaeth o sylwadau. Mae hyn yn helpu Newydd i wneud penderfyniadau a gwelliannau addas i gyflenwi gwasanaeth.

Caiff cynnydd y panel ei fwydo'n ôl i Fwrdd Newydd, fel bod yr holl broses yn hollol dryloyw ac yn sicrhau llif rhydd o gyfathrebu dwyffordd. Caiff unrhyw newidiadau i ymarfer hefyd eu cyfathrebu i denantiaid drwy'r cylchlythyr In View.

Mae croeso bob amser i aelodau newydd, felly os oes gennych ddiddordeb yn y ffordd y mae'ch landlord yn cyflenwi ei wasanaeth, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Cyswllt Cymunedol ar 01443 408080/01446 701501 a byddant yn eich ychwanegu at y rhestr bostio. Mae'r cyfarfodydd yn anffurfiol iawn ac mae staff Newydd, o staff rheng flaen i'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredydd yn eu mynychu. Mae pawb yn gyfeillgar iawn a thalir am gostau teithio a gofal plant felly peidiwch gadael i hyn eich rhwystro rhag dod i gyfarfodydd.

Gallaf ddweud yn ddiffuant i mi weld gwelliant amlwg mewn cyflenwi gwasanaeth ers i mi fod yn ymwneud gyda'r panel ac rwy'n falch i ddweud fy mod yn Gadeirydd grŵp mor flaengar a chynhyrchiol.

Angen Siopwyr Dirgel! Ydych chi'n ateb y galw?

Mae siopa dirgel yn awr yn cael ei ehangu i gynnwys ymweliadau i'n stadau yn ogystal â'r ffonio arferol i'n gwahanol adrannau, neu ymweld â derbynfeydd, i weld os ydym yn cyrraedd y Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid yr ydym wedi'u gosod.

Mae siopa dirgel yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaeth a roddwn i chi. Cafodd grŵp NEADS a'r grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth staff gyfarfod ar y cyd ym mis Chwefror i lunio cwestiynau penodol yng nghyswllt cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn ymchwilio'n ddyfnach i'r materion hyn.

Os hoffech chi fod yn siopwr dirgel a'n helpu i werthuso a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn i'n holl denantiaid yn gyfnewid am gydnabyddiaeth fechan, hoffem glywed gennych!

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Cyswllt Cymunedol ar 01443 408080 neu 01446 701501.

Pwy sydd ar fwrdd y Bartneriaeth?

Partner	Pa brosiectau sy'n mynd ymlaen?
Cymunedau Creadigol Mi-Space	Prosiect Gardd yn Heol y Llongau Prosiect Gardd yng Nghwrt Arthur Davies
Gofal Cymru	Prosiect Aspire – rhaglen hyfforddiant grymuso tenantiaid
Ymddiriedolaeth Datblygu DIC	Prosiect Gardd yng Nghwrt Philippa Freeth
Yr Heddlu	Prosiect Llongau Uchel Prosiect Ieuenctid yn Castleland
Canolfan Galw Heibio, Stad Stryd Thompson	Strategaeth Oedolion Bregus Clwb Nos Wener
Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Glyntaf (GTRA)	Banc Bwyd Prosiect Gardd
Cyngor Ar Bopeth	Prosiect Cynhwysiant Ariannol
Tai Pawb	Prosiect Cydraddoldeb
Cymunedau yn Gyntaf	Cynllun Cyflogaeth a Hyfforddiant Cymdogaeth (NEATS), prosiect eiriolaeth ar gyfer rhai heb fod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant
Cronfa Swyddi'r Dyfodol	Lleoliadau gwaith
Artist Lleol	Prosiect Celf y Glannau
Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr Newydd Aberaman (ANTRA)	Clwb Pêl-droed Plant
Partneriaid y Drenewydd – Cyngor Sir Powys ac ati	Datblygu both cymunedol Bancio amser Ceidwaid Chwarae
Cymunedau Agored	Grŵp Craffu
Housemark	Siopa Dirgel
Canolfan Rhagoriaeth LGBT	Nod yr Enfys

Beth sydd ar y gweill?

17 Awst	Diwrnod Agored ar 'Stigma Stad', lleoliad i'w gadarnhau
20 Awst	Sioe Daith Maes yr Eglwys a diwrnod hwyl, Pontypridd
21 Awst	Carnifal Glyntaf, Glyntaf
28 Awst	Sioe Daith Stryd Thompson a diwrnod hwyl Y Barri
3 Medi	Dyddiad newydd sioe daith Maes yr Ysgol a Heritage Drive, Y Barri
7 Medi	Grŵp Ymgynghorol Cynnal a Chadw, Ward Castleland, Y Barri
15 Medi	CCB a Phanel Cymunedol, Coryton, Caerdydd
22 Medi	Cymhorthfa Rheolwyr – Ward Castleland, Y Barri
22 Medi	Cyd gyfarfod grŵp NEADS a Chydraddoldeb Staff, lleoliad i'w gadarnhau

Cysylltiadau

I sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth Cynnwys Cymunedol gorau posibl, mae staff yn awr yn gweithio ym mhob ardal heb fod wedi eu cysylltu gyda rhanbarth penodol. Mae croeso i chi gysylltu ag unrhyw aelod o staff i gael cymorth os oes gennych fater Cyswllt Cymunedol.

Os hoffech fwy o wybodaeth ar unrhyw beth a welsoch yn y cylchlythyr yma neu os dymunwch ymuno ag unrhyw un o'r grwpiau neu'r prosiectau a nodwyd, cysylltwch â:

Keiron Montague
Uwch Swyddog Cyswllt Cymunedol
keiron.montague@newydd.co.uk
01443 408080

Tracy James
Swyddog Cyswllt Cymunedol
tracy.james@newydd.co.uk
01446 701501

Jackie Holly
Gweithwraig Cyswllt Cymunedol
jackie.holly@newydd.co.uk
01443 408080

Neu gysylltu â'ch swyddfa tai:

Swyddfa Ranbarthol y Cymoedd
Trem-y-Cwm, Heol Masefield,
Rhydyfelin CF37 5HQ
01443 408080

Swyddfa Ranbarthol y Fro
121 Broad Street
Y Barri CF62 7AL
01446 701501

Swyddfa'r Drenewydd
Tŷ Dewi Sant, New Church St
Y Drenewydd SY16 1RB
01686 621965

Neu siarad gydag unrhyw aelod o staff Newydd!